Rhif: **WG21423**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

## Cwricwlwm Cymru

### Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer diwygio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru

Cam 1: Llythrennedd, rhifedd a sgiliau ehangach

Dyddiad cyhoeddi: **Mawrth 2014**

# Cwricwlwm Cymru

## Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer diwygio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru

### Cam 1: Llythrennedd, rhifedd a sgiliau ehangach

**Cynulleidfa** Consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, ysgolion, plant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr, undebau athrawon, aelodau o'r cyhoedd a chyrff ac unigolion eraill sydd â diddordeb.

**Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad *Cwricwlwm Cymru – Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer diwygio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru – Cam 1: Llythrennedd, rhifedd a sgiliau ehangach*.

**Camau i'w cymryd** Dim – er gwybodaeth yn unig.

**Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:


Claire Habberfield
Y Tîm Deddfwriaeth
Yr Is-adran Gwasanaethau Corfforaethol
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Rhadbost NAT 8910
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3BR

e-bost: CurriculumforWales@cymru.gsi.gov.uk


**Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

**Dogfennau cysylltiedig** *Cwricwlwm Cymru – Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer diwygio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru – Cam 1: Llythrennedd, rhifedd a sgiliau ehangach* (2013)


ISBN digidol 978 1 4734 1087 9


© Hawlfraint y Goron 2014


WG21423

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Crynodeb o'r ymatebion** | **2** |
| **Y camau nesaf** | **12** |
| **Atodiad: Rhestr lawn o'r ymatebwyr** | **13** |

# Cyflwyniad

Ar 22 Hydref 2013 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad i gasglu barn pobl fel rhan o'r Adolygiad o Drefniadau Asesu a'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cynigion ar gyfer newidiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu a oedd wedi'u hanelu at gefnogi a chryfhau dysgu ac addysgu llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion. Roedd hefyd yn cynnwys cynigion ar gyfer gwneud sgiliau ehangach yn elfennau statudol o drefniadau'r cwricwlwm yng Nghymru.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 17 Ionawr 2014. Nodwyd cyfanswm o 10 cwestiwn mewn dogfen ar ffurf ffurflen ar-lein er mwyn ei gwneud yn haws iddi gael ei dychwelyd. Yn ogystal, datblygwyd fersiwn gyfeillgar o'r ymgynghoriad i bobl ifanc, a oedd yn cynnwys saith cwestiwn a threfnwyd arolwg ar-lein i gyd-fynd â hyn. Yn olaf, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau byw a gwahoddwyd rhanddeiliaid i drafod y cynigion yn fanwl a rhoi adborth i Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol.

Cafodd Llywodraeth Cymru 324 o ymatebion i'r prif ymgynghoriad a 202 o ymatebion ychwanegol i'r fersiwn gyfeillgar i bobl ifanc. Aeth tua 200 o randdeiliaid i'r digwyddiadau ymgynghori gan gyfrannu at y trafodaethau ar y cynigion. Gwrandawyd ar y trafodaethau hyn gan swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn bresennol ac fe'u hadlewyrchir yn y crynodeb canlynol o ymatebion.


Lle y cynhwysir graffiau, maent yn cynrychioli'r data meintiol a gasglwyd gan ymatebwyr a gyflwynodd ymatebion gan ddefnyddio ffurflen Llywodraeth Cymru.

Ceir rhestr lawn o ymatebwyr yn Atodiad A.

## Crynodeb o'r ymatebion

**Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno y dylai'r Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio newydd ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol yn y Cyfnod Sylfaen a Chymraeg, Saesneg a mathemateg yng Nghyfnodau Allweddol 2–4 fod yn seiliedig ar ddisgwyliadau o flwyddyn i flwyddyn i ategu'r FfLlRh?**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cyd-fynd â'r cynnig hwn.





Prin oedd y dystiolaeth o wrthwynebiad cryf i'r cynnig hwn yn y sylwadau ategol a ddarparwyd gan yr ymatebwyr. Ym marn llawer roedd yn gam rhesymegol a fyddai'n sicrhau mwy o synergedd a darpariaeth ddi-dor yn y system. Ar yr un pryd fe'i hystyriwyd yn ffordd o greu continwwm dysgu. Rhagwelodd yr ymatebion sefyllfa lle y byddai llif di-dor o waith a fyddai'n adeiladu ar ddysgu blaenorol er mwyn sicrhau safon uchel o lythrennedd a rhifedd yn ystod profiad ysgol dysgwyr.

Roedd y pryder mwyaf cyffredin a fynegwyd yn ymwneud â'r cwestiwn ynghylch p'un a ddylid pennu disgwyliadau o flwyddyn i flwyddyn, fel y nodir yn y FfLlRh ar hyn o bryd. Pwysleisiodd yr ymatebion hyn nad oedd plant yn datblygu ar yr un cyflymder, yn enwedig yn ystod blynyddoedd cynnar eu datblygiad, a dadleuwyd y dylid mabwysiadu dull yn seiliedig ar gynnydd o gam i gam yn hytrach nag ag ar ddisgwyliadau blynyddol.

Datgelodd sylwadau eraill bryder ynghylch yr effaith bosibl y gallai'r cynigion hyn ei chael ar ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Er nad oeddent o reidrwydd yn gwrthwynebu'r egwyddor o ddisgwyliadau o flwyddyn i flwyddyn, teimlent ei bod yn bwysig sicrhau y dylai'r system fod yn gallu ymateb a chydnabod cyflawniadau Dysgwyr ag ADY.

**Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno y dylid ymestyn y FfLlRh i gynnwys materion llythrennedd a rhifedd newydd yn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3 i 4 oed?**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cyd-fynd â'r cynnig hwn.





Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn nodi bod y FfLlRh yn cael ei ystyried yn rhywbeth a allai ddylanwadu ar waith yn y Cyfnod Sylfaen mewn ffordd gadarnhaol ac, fel y cyfryw, roedd cefnogaeth sylweddol i'r cynnig hwn. Ategwyd y farn hon gan y rhai a oedd am gael mwy o synergedd rhwng gwaith y Cyfnod Sylfaen a CA2, a ystyriai'r FfLlRh yn ffordd o greu continwwm posibl o sgiliau yn seiliedig ar ddisgwyliadau wedi'u diffinio'n glir.

Fodd bynnag, mynegodd llawer bryderon y gallai'r FfLlRh o bosibl effeithio ar y dull gweithredu a'r athroniaeth benodol sy'n sail i'r Cyfnod Sylfaen. Crybwyllodd rhai o'r ymatebwyr a fynegodd amheuon nifer o ddadleuon. Roedd y rhain yn cynnwys pryderon y gallai gor-ragnodi ac asesu leihau'r hyblygrwydd i ymateb i'r ffordd y mae plant yn dysgu. Mynegodd eraill bryderon bod y cynnig hwn yn golygu dychwelyd at y ffordd yr oedd llythrennedd a rhifedd yn cael eu haddysgu cyn i'r Cyfnod Sylfaen gael ei gyflwyno. Dadleuodd grŵp arall o ymatebwyr y dylai plant ar yr oedran hwn fod yn dysgu o brofiad, yn hytrach na chyfres ragnodedig o ofynion, ac y dylai'r Cyfnod Sylfaen ymwneud â dysgu sgiliau cymdeithasol, sut i ymddwyn, a pharch.

O ran cynigion yr ymgynghoriad ar gyfer ymestyn y FfLlRh i fyny er mwyn bod yn gyson ag arholiadau TGAU a Bagloriaeth Cymru, roedd cefnogaeth i hyn - yn enwedig gan y byddai'n helpu i sicrhau parhad o ran cynnydd ar draws pob cyfnod/cam addysg. Teimlai'r ymatebwyr y byddai angen ystyried y modd y byddai'r FfLlRh yn cael ei addysgu mewn dull trawsgwricwlaidd yng Nghyfnod Allweddol 4 - lle y gall plant ddewis cymysgedd o bynciau - ond y gallai continwwm dysgu wella perfformiad o ran arholiadau TGAU.

**Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno mewn egwyddor y dylai 'sgiliau ehangach' ddod yn elfennau statudol o'r cwricwlwm cenedlaethol?**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cyd-fynd â'r cynnig hwn.




Datgelodd y sylwadau a ddarparwyd fod cefnogaeth lwyr i'r cynnig i wneud sgiliau ehangach yn elfen statudol o'r cwricwlwm a chanmolwyd Llywodraeth Cymru gan rai am bwysleisio'r agweddau hyn o gymharu â rhai gweinyddiaethau eraill yn y DU. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn a oedd yn ymwneud yn bennaf â'r ffordd y'u diffiniwyd, y graddau y dylid eu rhagnodi a sut y dylent gael eu cynnwys fel rhan o'r cwricwlwm.

Ym marn grŵp o ymatebwyr roedd angen bod yn realistig ynghylch y nodau a'r sylw a fyddai'n cael ei roi i gynnwys y cwricwlwm a theimlwyd bod perygl y byddai'n ceisio ymateb i ormod o alwadau. Er na chynigiodd y ddogfen ymgynghori asesiadau mewn perthynas â'r sgiliau hyn, gwnaed sylwadau am ofynion asesu ac roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo, pe câi sgiliau ehangach eu hasesu, fod perygl y gellid colli'r ffocws ar lythrennedd a rhifedd, er mai barn leiafrifol oedd hon.


Roedd sawl un o'r ymatebwyr yn teimlo bod angen cael mwy o fanylder er mwyn egluro'r hyn a olygid gan y term sgiliau ehangach, yn ychwanegol at y wybodaeth a oedd yn cael ei chynnwys yn y ddogfen ymgynghori. Yn eu barn hwy roedd angen dealltwriaeth well o lawer o nodweddion pob un er mwyn iddynt gael eu cynnwys fel elfennau statudol o'r cwricwlwm.

Ym marn eraill, dylai'r sgiliau hyn fod yn rhan annatod o'r cwricwlwm ac nid yn rhywbeth ychwanegol. Hefyd, pwysleisiodd nifer o'r ymatebion fod angen integreiddio'r sgiliau ehangach mewn rhaglenni astudio presennol ac na ddylent ddod yn elfen unigol arall.

Croesawyd y syniad o gysoni'r sgiliau hyn â Bagloriaeth Cymru er mwyn cefnogi continwwm dysgu ond roedd teimlad cyffredinol y byddai'n fuddiol cael rhagor o fanylion cyn gwneud penderfyniad hyddysg terfynol.

**Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno y dylai’r sgiliau hyn gynnwys meddwl yn feirniadol a datrys problemau, cynllunio a threfnu, creadigrwydd ac arloesi, effeithiolrwydd personol a llythrennedd ddigidol?**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cyd-fynd â'r cynnig hwn.





Y thema fwyaf cyffredin yn y sylwadau ategol oedd bod angen cael mwy o fanylion am y cynnwys a sut y byddai eu cynnwys fel elfennau statudol yn effeithio ar y gwaith yn yr ystafell ddosbarth. Gall hyn esbonio'r nifer gymharol uchel o ymatebion a nododd nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig. Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod angen cael canllawiau clir a chysondeb ynghylch ystyr y derminoleg, ac i randdeiliaid gael eu cefnogi.

Roedd galwadau am derminoleg safonol ar gyfer asesu a diffiniadau o sgiliau er mwyn sicrhau cysondeb ym mhob un o'r camau addysg, yn ogystal â'r angen i gynnwys a disgwyliadau fod yn briodol yn ôl oedran y dysgwyr.

Awgrymodd yr ymatebwyr hefyd nifer o sgiliau ychwanegol y gellid eu cynnwys pe bai sgiliau ehangach yn cael eu cyflwyno.

**Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno y dylai ysgolion adrodd ar gynnydd mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu/Datblygiad Mathemategol neu Gymraeg, Saesneg a mathemateg – gan gynnwys llythrennedd a rhifedd yn unol â'r diffiniad yn y FfLlRh i ddysgwyr, rhieni/gofalwyr a Llywodraeth Cymru ar ddiwedd pob cyfnod addysgol?**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cyd-fynd â'r cynnig hwn.




Yn gyffredinol, cytunodd yr ymatebwyr mewn egwyddor â'r cynnig hwn. Fodd bynnag, teimlai nifer sylweddol na ellid ond ystyried asesu yn fanwl yng nghyd-destun y newid ehangach i'r cwricwlwm a gynigiwyd mewn perthynas â cham dau o'r adolygiad. Serch hynny, fe'i hystyriwyd yn rhywbeth a fyddai'n rhoi mwy o gydlyniaeth yn yr hyn a gâi ei asesu a'i adrodd. Ar yr un pryd, pwysleisiodd yr ymatebwyr ei bod yn bwysig peidio â dibrisio'r pynciau sylfaen ac na ddylid colli eu pwysigrwydd oherwydd y pwyslais ar lythrennedd a rhifedd. Un o'r negeseuon allweddol oedd y dylai'r gofynion adrodd fod yn ddichonadwy a chynaliadwy.

Credai nifer fawr o'r ymatebwyr ei bod yn bwysig denu diddordeb rhieni ac y dylai'r adroddiadau a gânt gael eu cyflwyno mewn ffyrdd y gallent eu deall ac a oedd yn osgoi defnyddio data a jargon cymhleth. Pwysleisiodd yr ymatebwyr hefyd yr angen am derminoleg gyson ar draws y camau/cyfnodau gwahanol mewn addysg.

Fel y nodwyd yn yr ymatebion i Gwestiwn 1, roedd llawer o'r ymatebwyr yn pryderu y gallai'r defnydd o ddisgwyliadau i ddisgrifio'r ffordd y mae disgyblion yn gwneud cynnydd, roi'r argraff anghywir i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr ac y byddai hyn yn arwain at ganlyniadau negyddol. Credent hefyd fod angen cofnodi cyflawniadau dysgwyr yn ogystal â'u cyrhaeddiad. Pwysleisiwyd yr angen i sicrhau bod pawb yn deall nad yw pob dysgwr yn datblygu ar yr un cyflymder ac y byddai angen dehongli disgwyliadau o flwyddyn i flwyddyn yn briodol a chyflwyno adroddiadau mewn ffordd sensitif. Crynhowyd y farn hon gan ymatebydd a oedd yn pryderu y gallai rhieni feddwl bod eu plant wedi methu am nad oeddent wedi gwneud y cynnydd disgwyliedig.


Ar yr un pryd, mynnodd yr ymatebwyr ei bod yn bwysig gwahaniaethu rhwng asesu a wnaed i gefnogi dysgu (i nodi anghenion disgyblion, pennu gwaith gwahanol neu ddefnyddio amser staff ychwanegol ac ati) a'r hyn a ddefnyddid i gyflwyno adroddiadau i rieni neu i Lywodraeth Cymru.

Gwnaeth rhai o'r ymatebwyr gynnwys sylw yn benodol ynglŷn â'r pryder y gallai Llywodraeth Cymru ddefnyddio data adrodd fel rhan o broses bandio ysgol yr oeddent yn ei gwrthwynebu.

Yn gyffredinol, teimlwyd bod angen i ymarferwyr weld sut olwg fyddai ar y model asesu cyfunol manwl hwn yng ngham dau o'r adolygiad.

**Cwestiwn 6: A ydych yn cytuno y dylai ysgolion barhau i asesu ar ddiwedd cyfnod ar Ddatblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol, yn ogystal â darparu adroddiad ar y meysydd hynny?**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cyd-fynd â'r cynnig hwn.




Roedd cefnogaeth i'r cynnig y dylid parhau i adrodd ar Ddatblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol yn y Cyfnod Sylfaen a oedd, ym marn rhai o'r ymatebwyr, yn un o'i elfennau hanfodol. Roedd eraill o'r farn y dylid adrodd arno ar bob cam olynol o addysg. Fodd bynnag, roedd gan y rhai a gredai fod hyn yn tynnu'r ffocws oddi ar lythrennedd a rhifedd farn wahanol.


O fewn yr amrywiaeth eang hon o sylwadau, cyfeiriodd yr ymatebwyr at yr heriau yr oedd ymarferwyr wedi eu hwynebu wrth adrodd ar yr agwedd hon. Credent fod y ffordd yr ymgymerwyd â hyn yn rhy oddrychol a bod angen mwy o gysondeb a datblygu rhyw fath o broses gymedroli.

Ar yr un pryd pwysleisiodd yr ymatebwyr yr angen i'r wybodaeth gael ei defnyddio yn fwy effeithiol er mwyn i hyn barhau i fod yn un o'r gofynion. Teimlent y gallai ymarferwyr yn CA2 ac yn fwy felly yn CA3 a CA4 wneud mwy o ddefnydd o'r data.

Pwysleisiodd nifer ohonynt fod y math o nodweddion a oedd yn ganolbwynt i hyn, a'r math o dechnegau asesu a ddefnyddid, yn golygu eu bod yn rhy oddrychol ac yn seiliedig ar ganfyddiadau, i'w defnyddio fel rhan o ddangosydd y Cyfnod Sylfaen neu unrhyw fesurau eraill y bernid ysgolion yn eu herbyn.

**Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno y dylid cynnwys tasgau dysgu cyfoethog fel rhan o fodel asesu cyffredinol ar gyfer diwedd Cyfnod Allweddol 2?**

Roedd mwyafrif bach o blaid y cynnig hwn.




Er bod y ddogfen ymgynghori yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am gynnwys a dyluniad y Tasgau Dysgu Cyfoethog, credai llawer o'r ymatebwyr fod angen mwy o fanylion am eu cynnwys, y modd y caent eu strwythuro a sut y dylid eu hasesu, cyn y gallent roi sylwadau ar ba un a ddylid eu cyflwyno. Gall hyn esbonio'r nifer gymharol uchel o ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig. Cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at y Deunyddiau Asesu Statudol Dewisol a ddatblygwyd tua saith mlynedd yn ôl, gan gynnwys y rhai a gredai nad oeddent wedi cael eu defnyddio yn y modd gorau posibl.

Mynegwyd rhai pryderon. Roedd y rhain yn ymwneud â themâu cyffredinol megis y perygl o orasesu dysgwyr a theimlad y gallai'r asesiadau ddod yn ymarferion ticio blychau lle y gwnaed ymdrech fawr i dynnu sylw at sgiliau er mwyn bodloni meini prawf a bennwyd ymlaen llaw.


Ar yr un pryd, cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at bryder ehangach am y graddau y defnyddid canlyniadau Tasgau Dysgu Cyfoethog i gynllunio'r ddarpariaeth yn CA3. Credent mai prin fu'r dystiolaeth o barhad o'r fath yn y gorffennol a bod hyn yn ffactor yr oedd angen ei ystyried pan gânt eu cynllunio. Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn hefyd bod yr amseriad a awgrymwyd yn ystod tymor yr haf yn amhriodol, yn bennaf oherwydd pwysau eraill ar amser ysgol yn ystod y tymor hwnnw.

Tynnodd yr ymatebwyr sylw hefyd at faterion yn ymwneud â'r modd y byddai'r Tasgau Dysgu Cyfoethog yn cael eu gweithredu. Credai rhai y dylid eu marcio'n allanol, yn bennaf oherwydd pryder ynghylch llwyth gwaith athrawon, er bod eraill o'r farn bod elfen o Asesiad Athro yn hanfodol. Fodd bynnag, roedd teimlad ymhlith y rhai a gyfeiriodd at y trefniadau asesu fod angen rhyw fath o broses gymedroli.

Cyflwynodd elfen o'r cynnig hwn y cysyniad o ddileu gwyddoniaeth o drefniadau adrodd diwedd cyfnod allweddol. Fodd bynnag, tynnodd nifer o ymatebion sylw at bryderon mawr y byddai hyn yn dibrisio gwyddoniaeth ac yn anfon y neges anghywir i ysgolion am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg.

**Cwestiwn 8: A ydych yn cytuno â'r argymhellion ein bod yng Nghyfnod Allweddol 3 yn cadw'r gofyniad i roi i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 asesiad cyfunol o gynnydd yn y rhaglenni astudio Cymraeg, Saesneg a mathemateg newydd, gwyddoniaeth a Chymraeg ail iaith ac yn dileu'r gofyniad i roi i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 asesiad o gynnydd ym mhob un o'r pynciau sylfaen statudol eraill?**

Cafwyd ymatebion cymysg i'r cynnig hwn.




Nid oedd unrhyw farn glir yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn, o bosibl am fod nifer fawr o'r ymatebion wedi dod o leoliadau neu ymarferwyr sy'n gweithio yn y Cyfnod Sylfaen neu CA2. Cyfeiriodd rhai o'r sylwadau at faterion cyffredinol ynghylch gofynion adrodd, yn hytrach na ffocws penodol ar ba un a ddylid dileu'r gofyniad i gyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru ar asesiad o gynnydd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 mewn pynciau sylfaen statudol eraill.

Fodd bynnag, awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y gallai lleihau nifer y pynciau y cyflwynwyd adroddiadau arnynt i Lywodraeth Cymru ddibrisio'r pynciau hynny yn anfwriadol. Credai'r ymatebwyr hefyd y dylid cydnabod cyflawniadau dysgwyr ni waeth beth fo cyd-destun y pwnc a'i bod yn bwysig cydnabod bod llythrennedd a rhifedd yn cael eu hyrwyddo ar draws y cwricwlwm ac nid mewn nifer gyfyngedig o bynciau.


Cyfeiriodd nifer o'r sylwadau ategol at faterion a amlygwyd mewn ymateb i gwestiynau blaenorol, gan gynnwys yr angen i gyfyngu ar y baich asesu ac adrodd, pwysigrwydd cymedroli, yr angen i'r hyn yr adroddwyd arno fod mewn fformat yr oedd ei dderbynwyr yn ei ddeall, ac i'r data asesu gael eu defnyddio i lywio addysgu a dysgu a chymorth yn y dyfodol.

Yn y digwyddiadau byw yn enwedig roedd pryderon y byddai'r cynnig hwn:

- yn effeithio ar adnoddau a'r amser ar yr amserlen a ganiateid ar gyfer pynciau eraill;
- yn anfon y neges nad oes gan bynciau di-graidd gymaint o werth;
- yn amharu ar y weledigaeth o gwricwlwm eang a chytbwys.

**Cwestiwn 9: Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, a ydych yn cytuno ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer cyflwyno newidiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru?**

Roedd mwyafrif bach o blaid y cynnig hwn.




Er i fwyafrif bach yn nifer yr ymatebion meintiol a gafwyd gefnogi'r amserlen hon, dywedodd llawer o'r ymatebwyr fod angen cyfnod o gyfuno ar ysgolion ac nid y lefel o newid a oedd yn cael ei chynnig. Teimlwyd y dylai newidiadau i gefnogi'r gwaith o ymsefydlu'r FfLlRh gael eu hystyried yn y lle cyntaf gyda chynigion eraill yn dod ynghyd yng ngham dau o'r adolygiad.

Pe bai newid yn digwydd, roedd sawl un am sicrhau bod mwy o amser ar gael i hyfforddi ymarferwyr ac roeddent yn credu bod angen caniatáu amser iddynt ystyried y dulliau newydd. Un awgrym oedd y dylai'r gwaith gweithredu gael ei ohirio gyda rhaglen dreigl i baratoi ysgolion a'u galluogi i gaffael gwybodaeth ymarferol.

Ar yr un pryd, roedd yr ymatebwyr yn credu bod angen ymgynghori a phenderfynu ar y materion i'w cynnwys yng Ngham 2 o'r rhaglen cyn i'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau gael eu rhoi ar waith ar gyfer Cam 1. Mynegwyd barn gref mewn rhai o'r ymatebion fod angen adolygu'r cwricwlwm cyfan ac y dylid osgoi dull gweithredu tameidiog.

Ategwyd hyn gan rai o'r cyfranogwyr yn y digwyddiadau byw lle y teimlwyd yn gyffredinol bod rhanddeiliaid am weld y cynnyrch terfynol cyn gwneud newidiadau. Roedd rhai yn teimlo y gallai cyflwyno hyn yn raddol greu'r canfyddiad mai'r hyn a weithredir gyntaf yw'r peth pwysicaf, y bydd dull dau gam yn creu mwy o drafferthion ac nid llai fel y bwriadwyd a bod angen tynnu rhywfaint o'r pwysau oddi ar y system os rhoddir y newidiadau hyn ar waith.

Yn olaf, roedd llawer yn teimlo bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ofalu ei bod yn osgoi cyfres o ychwanegiadau at y cwricwlwm a phwysleisiwyd y dylid gohirio newidiadau ehangach, gan gynnwys y rhai a gynigiwyd ar gyfer asesu, nes bod y fframwaith llythrennedd a rhifedd yn fwy cyfarwydd a bod trefniadau ar waith i'w cefnogi.

**Cwestiwn 10: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.**

Cynhwyswyd cwestiwn terfynol yn gofyn a oedd gan randdeiliaid unrhyw sylwadau eraill yr hoffent eu cynnwys. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn crynhoi neu'n ailadrodd pwyntiau a wnaed eisoes mewn perthynas â'r cwestiynau a gynhwyswyd yn yr holiaduron. Ymhlith y rhain roedd:

- ffocws cryf mewn rhai ymatebion ar bwysigrwydd gwyddoniaeth wrth hyrwyddo cyflawniad mewn pynciau STEM, yn ogystal â hyrwyddo gwerth addysg gorfforol ac addysg grefyddol;
- cyfeiriad at yr angen am fwy o ganllawiau ar asesiad athro a chymedroli;
- galwad am i fwy o arian gael ei ddirprwyo i ysgolion;
- cred y dylid rhoi'r gorau i'r ddyletswydd statudol i adrodd mewn lefelau;
- galwad am leihad yng nghynnwys y cwricwlwm;
- cais am gwricwlwm eang a chytbwys;
- galwad am i derminoleg gyson gael ei defnyddio yn y FfLlRh, rhaglenni astudio/Meysydd Dysgu, ac wrth asesu ac adrodd;
- yr angen am ddulliau mwy manwl a gwyddonol wrth ddehongli lefelau;
- perygl addysgu i'r prawf;
- pryder bod angen i egwyddorion CCUHP fod yn fwy penodol yn y ffordd y dylunnir y cwricwlwm a'r trefniadau asesu;
- bod angen cydnabod anghenion pobl ifanc â nodweddion gwarchodedig yng nghwricwlwm yr ysgol

Ar yr un pryd, tynnodd yr ymatebwyr sylw at yr angen am Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ac i ysgolion gael eu cefnogi mewn modd effeithiol er mwyn iddynt gyflawni'r nodau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ac i unrhyw gwricwlwm a threfniadau asesu newydd gael eu rhoi ar waith yn effeithiol.

## Y camau nesaf

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ac wedi eu hystyried. Defnyddiwyd y sylwadau a gafwyd i lywio'r gwaith o ddatblygu cynigion manwl er mwyn i'r rhanddeiliaid eu hystyried ymhellach. Caiff y cynigion hyn eu cyhoeddi ar 26 Mawrth 2014 yn y cyfeiriad canlynol:

http://wales.gov.uk/consultations/education/?skip=1&lang=cy

## Atodiad: Rhestr lawn o'r ymatebwyr

| **Rhif** | ***Enw*** | ***Sefydliad*** |
|---|---|---|
| 1 | Ryan Morgan | Ysgol Gynradd Trelewis |
| 2 | Jayne Edwards | Ysgol Gynradd Drenewydd Gelli-farch |
| 3 | Angharad Jones | Ysgol Gymunedol Peniel (Cynradd) |
| 4 | Adam Barnes | Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Minera |
| 5 | Mrs K D Sherlock | Ysgol Fabanod Copperworks |
| 6 | Andrew Strong | Ysgol Gynradd Gymunedol Llanbister |
| 7 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 8 | Amanda Thomas | Prifysgol De Cymru |
| 9 | C Dale | Ysgol Gynradd Brynmenyn |
| 10 | Ceri Gibbon | Ysgol Gynradd Baden Powell |
| 11 | Louise Muteham | Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dinas Llandaf |
| 12 | Lisa Williams | Ymateb Unigol |
| 13 | Daniel Jones | Ymateb Unigol |
| 14 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 15 | Jason Clark | Ysgol Gynradd Baden Powell |
| 16 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 17 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 18 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 19 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 20 | David Griffiths | Ysgol Gynradd Ton yr Ywen |
| 21 | C Bradshaw | Ysgol Uwchradd Fitzalan |
| 22 | Sian Mainwaring | Ysgol Gyfun Pontllanfraith |
| 23 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 24 | Claire Armitstead | Ysgol Uwchradd y Rhyl |
| 25 | Sarah Burbage | Ysgol Gynradd Drenewydd Gelli-farch |
| 26 | Alex Worthing | Ymateb Unigol |
| 27 | John Jones | Ysgol Gynradd Tregaron |
| 28 | Owen Hathaway | NUT Cymru |
| 29 | Dr Rosetta M Plummer | Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru |
| 30 | Amy Jones | Grŵp Cynghori ABCh Cymru Gyfan |
| 31 | Jennifer Hill | Cyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau Cyngor Bro Morgannwg |
| 32 | Jo Bryan | Ysgol Feithrin Bute Cottage |
| 33 | Nia Cule | Ysgol Gynradd Colcot, y Barri |
| 34 | Mark Middlemiss | Ysgol Gynradd Palmerston, y Barri |
| 35 | Susan Evans | Ysgol Gynradd Llandochau, Bro Morgannwg |
| 36 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 37 | Tina Taylor | Ysgol Gynradd Victoria, Penarth |
| 38 | Mr Rob Williams | Ysgol Gynradd Tremarchog |
| 39 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 40 | Fiona Thomas | Ysgol Dŵr y Felin, Castell-nedd |

| | | |
|---|---|---|
| 41 | Clare Barnes | Ysgol Willowdene |
| 42 | Steve Lord | Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn |
| 43 | Linda Davies | Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canol De Cymru |
| 44 | Carl Wynn | Awdurdod Addysg Wrecsam |
| 45 | Jonathan Blofeld Rees | Ymateb Unigol |
| 46 | Hywel Price | Ymateb Unigol |
| 47 | Louise Lynn | Ysgol Gynradd y Rhws |
| 48 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 49 | Meic Griffiths | Ysgol Gynradd y Bont-faen |
| 50 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 51 | Alison Ellis | Ysgol Gynradd Sirol Maesyrhandir |
| 52 | Kevin Jeffrey | The Professional Literacy Company Ltd |
| 53 | Janet Hayward | Ysgol Gynradd Ynysowen |
| 54 | Ron Marchant | Ymateb Unigol |
| 55 | Cathrin Manning | Y Groes Goch Brydeinig |
| 56 | Steven Rees | Ysgol Gynradd Evenlode |
| 57 | Sam MacNamara | Llywodraethwyr Cymru |
| 58 | Colin Skinner | Ysgol Gynradd Parc y Rhath |
| 59 | Steve Bowden | Ymateb Unigol |
| 60 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 61 | Mr Pascoe | Ysgol Dylan Thomas (Uwchradd) |
| 62 | Simeon Molloy | Ysgol Uwchradd Dinbych |
| 63 | Adam Raymond a Geraint Couldrick | Ysgol Gynradd Gwauncelyn ac Ysgol Gynradd Gwaunmiskin |
| 64 | Karen Mills | Collective Learning Ltd |
| 65 | Peter Jenkins | Ysgol Gynradd Libanus, |
| 66 | Catherine Place | Ysgol Gynradd Glan Wysg |
| 67 | Michelle Marshall | CSC: Tîm Cyfnod Sylfaen |
| 68 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 69 | Jeremy Phillup | Ffederasiwn Pen-y-bont ar Ogwr o Benaethiaid Ysgolion Cynradd |
| 70 | Simon Ward | Partneriaeth Dysgu yn y Gwir Fyd Cymru |
| 71 | DD/G | Ysgol Gynradd Cwmfelin, Maesteg |
| 72 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 73 | Amanda Malkin | Adran Cyfnod Sylfaen, Consortiwm Canol De Cymru |
| 74 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 75 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 76 | Barbara Murphy | Ysgol Gynradd Gatholig St Robert |
| 77 | Amanda Stanford | Ysgol Fabanod Mynydd Cynffig |
| 78 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 79 | Gaynor Brimble | Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru |
| 80 | Arwel George | CYDAG |

| | | |
|---|---|---|
| 81 | Nicola Williams | Ysgol Gynradd Deri |
| 82 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 83 | Johnathan Lloyd | Ysgol Gynradd Ystrad Mynach |
| 84 | Kate Olsen | Ysgol Gynradd Tynewydd |
| 85 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 86 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 87 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 88 | Kay Harteveld | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| 89 | Davina Parfitt | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| 90 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 91 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 92 | Helen Rideout | Ysgol Bryn Castell, Pen-y-bont ar Ogwr |
| 93 | Ceri James | CILT Cymru |
| 94 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 95 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 96 | David Rees | Grŵp penaethiaid ysgolion cynradd Casnewydd |
| 97 | Jayne Price | Ysgol Fabanod Cwmaber |
| 98 | Beryl Taylor | Ysgol Gynradd Maes yr Haul ym Mhen-y-bont ar Ogwr. |
| 99 | Rachel Misra | Ymateb Unigol |
| 100 | Michaela Benjamin | Estyn |
| 101 | Sharon Titley | Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf |
| 102 | Daniel Esteve | Ymateb Unigol |
| 103 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 104 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 105 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 106 | Sam Hall | Ysgol Gynradd Ynysowen |
| 107 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 108 | Gary Biggins | Undeb Athrawon y Gymdeithas Athrawon a Darlithwyr |
| 109 | Martin Griffiths | Ysgol Gynradd Ynysowen |
| 110 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 111 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 112 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 113 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 114 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 115 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 116 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 117 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 118 | Owain ap Dafydd | Ysgol Gyfun Cwm Rhymni |
| 119 | Nicki Prichard | Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Forwyn Fair |
| 120 | Mark Anderson | Ymateb Unigol |
| 121 | Peter Dale | Ymateb Unigol |
| 122 | Moira Ashton | Ymateb Unigol |
| 123 | Andrew Meates | Ymateb Unigol |

| | | |
|---|---|---|
| 124 | Rachel Owen | Ymateb Unigol |
| 125 | Jayne Davies | Ymateb Unigol |
| 126 | Matthew Owens | athrawon yn Ysgol Gynradd yr Archddiacon John Lewis. |
| 127 | Nia Williams | Ymateb Unigol |
| 128 | Richard Lashley | Ysgol Maesydderwen |
| 129 | Cerys Thomas | Ymateb Unigol |
| 130 | Trish Buck | Ymateb Unigol |
| 131 | Geraint Jenkins | Ymateb Unigol |
| 132 | Claire Lewis | Ymateb Unigol |
| 133 | Suzanne Sheppard | Ymateb Unigol |
| 134 | Lyn Stallard | Ymateb Unigol |
| 135 | Dave Smith | Ymateb Unigol |
| 136 | Clare Protheroe | Pacey Cymru |
| 137 | Carys Pritchard | Consortiwm Canol De Cymru |
| 138 | Morien Morgan | Ysgol Gynradd Coed y brain |
| 139 | Helen Watkins | Ymateb Unigol |
| 140 | Sharman Morgan | Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru |
| 141 | Janice Llewellyn | Ysgol Iau Dinbych-y-pysgod |
| 142 | Neil Pryce | Ysgol Gynradd y Pil |
| 143 | Susan Ware | Ysgol Gynradd Blaencwm |
| 144 | Angela Sanders | Ymateb Unigol |
| 145 | Wendy Sadler | Science Made Simple |
| 146 | Lalit Bhalla | Ymateb Unigol |
| 147 | Martyn Richards | Ymateb Unigol |
| 148 | Angharad Evans | Ymateb Unigol |
| 149 | Morien Morgan | Fforwm Penaethiaid Caerffili |
| 150 | Eryl Samuel | Grŵp llywio'r cwricwlwm ac asesu ar gyfer Consortiwm Canol De Cymru (CASG). |
| 151 | Karen Olds | Ysgol Gynradd Tredelerch |
| 152 | Claire Lawson | RSPCA |
| 153 | Michael Lock | Ysgol Twyn, Uned Blynyddoedd Cynnar, |
| 154 | Julie Morgan | Ysgol Gynradd Cwm Ogwr |
| 155 | Jonathan Moody | Consortiwm De Ddwyrain Cymru |
| 156 | Sue wilson | Ysgol Fabanod Milton |
| 157 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 158 | Val Simpson | Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Gwenfô |
| 159 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 160 | Elin Wyn | Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru |
| 161 | Robin Hughes | Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru |
| 162 | Lisa Williams | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| 163 | Bethan Jenkins | Aelod Cynulliad |
| 164 | Penny Skyrme | Ymateb Unigol |

| | | |
|---|---|---|
| 165 | PAUL SMITH | Ymateb Unigol |
| 166 | Alan Roberts | Ymateb Unigol |
| 167 | Gwyneth Lake | Ymateb Unigol |
| 168 | Carole Anne Davies | Ymateb Unigol |
| 169 | Delyth Townsend | Ymateb Unigol |
| 170 | Eryl Mason | Ymateb Unigol |
| 171 | Denise Breen | Ymateb Unigol |
| 172 | Helen Cooper | Ymateb Unigol |
| 173 | Carolyn Jay | Ymateb Unigol |
| 174 | Michelle Ball | Ymateb Unigol |
| 175 | Amanda Manley | Athrawes Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Ffagan |
| 176 | Justin Taylor | Ymateb i'r ymgyrch (cymorth cyntaf) |
| 177 | Joanna Burdett | Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru yr Archddiacon John Lewis |
| 178 | Heather Morgan | Ysgol Gynradd Coety |
| 179 | Zein Pereira | AFASIC Cymru |
| 180 | Chloe Parr Jones | Ysgol Gynradd y Pil |
| 181 | Mrs Jean Williams | Ysgol Gynradd y Pil |
| 182 | Elaine Perry | Tîm Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol (PESS) Rhanbarth De-orllewin a Chanolbarth Cymru |
| 183 | Kate Toozer | Ymateb Unigol |
| 184 | Kate Andrews | Ymateb Unigol |
| 185 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 186 | Claire Bradford | Ymateb Unigol |
| 187 | David Stacey | Ymateb Unigol |
| 188 | Kathryn John | Ysgol Gynradd Ynysowen |
| 189 | Sue Williams | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| 190 | Dr Jane Walters | Canolfan Addysg Athrawon De-orllewin Cymru |
| 191 | Alyson Lewis | Ymateb Unigol |
| 192 | Allison Beynon | Ymateb Unigol |
| 193 | Andrew Davies | Ysgol Gynradd Bryn Garth |
| 194 | Liz Barry | Canolfan Addysg a Hyfforddiant Athrawon De-ddwyrain Cymru |
| 195 | Karen Evans | Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru |
| 196 | Jim Toal | Ysgol Uwchradd Y Trallwng |
| 197 | C. Archard | Ysgol Gynradd Plasnewydd |
| 198 | Marianne Mannello | Chwarae Cymru |
| 199 | Delyth Lloyd | Sefydliad Prydeinig y Galon |
| 200 | David Cunnah | Y Sefydliad Ffiseg |
| 201 | Katie Chappelle | St John Cymru |
| 202 | Mike Gough | Ysgol Gynradd Deighton |
| 203 | Andrew Wood | Ysgol Gynradd Porthcawl |
| 204 | Andrea Wood | Ysgol Gynradd Bryncethin |

| | | |
|---|---|---|
| 205 | Nia Williams | Amgueddfa Genedlaethol Cymru |
| 206 | Mr Ian Bird | Ysgol Gynradd West Park |
| 207 | Sue Pilcher | Ysgol Gynradd Ton-du |
| 208 | Julie Jones | CFBT |
| 209 | Alyson Jones | Ysgol Gynradd Nant-y-moel |
| 210 | Diane Hebb | Cyngor Celfyddydau Cymru |
| 211 | Eirlys Lougher | Ymateb Unigol |
| 212 | Lisa Donoghue- Bosher | Ymateb Unigol |
| 213 | Caroline Laxton | Ymateb Unigol |
| 214 | Mandie Welch | Ymateb Unigol |
| 215 | Claire Bowen | Ymateb Unigol |
| 216 | Rhian Smith | Ymateb Unigol |
| 217 | Alison Evans | Ymateb Unigol |
| 218 | Val Davies | Ymateb Unigol |
| 219 | Alison Turner | Ymateb Unigol |
| 220 | Lynne Jones | Ymateb Unigol |
| 221 | Phillip Thomas | Ymateb Unigol |
| 222 | Andrea Gasson | Ymateb Unigol |
| 223 | Ian Williams | Ymateb Unigol |
| 224 | George Bugelli | Ymateb Unigol |
| 225 | Lynne Hull | Ymateb Unigol |
| 226 | Maggie Edwards | Ymateb Unigol |
| 227 | Eleanor Snipe | Ymateb Unigol |
| 228 | David Sandbrook | Ymateb Unigol |
| 229 | Armon Daniels | Ymateb Unigol |
| 230 | Gerry Adams | Ymateb Unigol |
| 231 | Liz Errington-Evans | Ymateb Unigol |
| 232 | Neil Davies | Ymateb Unigol |
| 233 | Susan Nolan | Ymateb Unigol |
| 234 | Gethin Ellis | Ymateb Unigol |
| 235 | Margaret Egan | Ymateb Unigol |
| 236 | Catherine Owen | Ymateb Unigol |
| 237 | Peter O' Callaghan | Ymateb Unigol |
| 238 | Helen oleary | Ymateb Unigol |
| 239 | Sian Jones | Ymateb Unigol |
| 240 | Alison jones | Ymateb Unigol |
| 241 | Julia thomas | Ymateb Unigol |
| 242 | George Chamberlin | Ymateb Unigol |
| 243 | Rebecca Jones | Ymateb Unigol |
| 244 | Sarah Davies | Ymateb Unigol |
| 245 | William Penny | Ymateb Unigol |
| 246 | Adrian Ionescu | Ymateb Unigol |
| 247 | Rhiannon Rees | Ymateb Unigol |
| 248 | Helen Burton Hughes | Ymateb Unigol |
| 249 | Helen lawton | Ymateb Unigol |
| 250 | Anirban Choudhury | Ymateb Unigol |

| | | |
|---|---|---|
| 251 | Steve Rock | Ymateb Unigol |
| 252 | Nerys James | Ymateb Unigol |
| 253 | Robert Hopkins | CSCJES |
| 254 | Simon Jones | Chwaraeon Cymru |
| 255 | Enid Rees | Ysgol Gynradd y Pil |
| 256 | Sophie Furber | Ymateb Unigol |
| 257 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 258 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 259 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 260 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 261 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 262 | Dr Tania ap Siôn | Cymdeithas CYSAGau Cymru |
| 263 | Yr Athro Lesley Francis | Canolfan y Santes Fair a St Giles, Cymru |
| 264 | Dr Tania ap Sion | Ymateb Unigol |
| 265 | Julie Williams | Prif Gynghorydd Gwyddonol |
| 266 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 267 | David George | Cymdeithas Penaethiaid Ysgolion Uwchradd Pen-y-bont ar Ogwr |
| 268 | Libby Jones | Ymateb Unigol |
| 269 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 270 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 271 | Dr. Chris Howard | Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon |
| 272 | Kevin Granfield | Cyngor Sir y Fflint |
| 273 | Samantha King | Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf |
| 274 | Matthew Pullen | Ymateb Unigol |
| 275 | Lesley Dancey | Rheolwyr a Hwyluswyr Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol o'r pedwar consortiwm rhanbarthol |
| 276 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 277 | Beverley Symmonds | AG a Chwaraeon Ysgol/Consortiwm Canolbarth y De Gwasanaeth Addysg ar y Cyd |
| 278 | Julie Machin | Ysgol Uwchradd Prestatyn |
| 279 | Kristian James | Skill Cymru |
| 280 | Rhodri Roberts | Comisiynydd y Gymraeg |
| 281 | Joshua Miles | Ffederasiwn Busnesau Bach |
| 282 | Jan English | Consortiwm Canol De Cymru a Chonsortiwm De-ddwyrain Cymru |
| 283 | Rebecca Brake | GL Assessment |
| 284 | Jane Anthony | AG a Chwaraeon Ysgol Consortiwm Canolbarth y De |
| 285 | Estelle Robinson | Y Cyngor Astudiaethau Maes |
| 286 | Lesley Dancey | ar ran Hwyluswyr Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol |
| 287 | S.J. O'Halloran | Ysgol Gynradd Nottage |
| 288 | Neil Davies | Ysgol Iau Mynydd Cynffig |

| | | |
|---|---|---|
| 289 | Amanda Malkin | Ymateb Unigol |
| 290 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 291 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 292 | Chris Padden | Incerts CIC |
| 293 | Mary Parry | CYSAG Sir Gaerfyrddin |
| 294 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 295 | Andi Morgan | Canolfan Consortiwm (Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin) |
| 296 | R Hughes | Ysgol Gynradd Alway, Casnewydd |
| 297 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 298 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 299 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 300 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 301 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 302 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 303 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 304 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 305 | Richard Godwin | Ymateb Unigol |
| 306 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 307 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 308 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 309 | Rachel Moore | Ymateb Unigol |
| 310 | J Nicholls | Ymateb Unigol |
| 311 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 312 | Owain ap Dafydd | Ysgol Gyfun Cwm Rhymni |
| 313 | S. Jên Dafis | Ymateb Unigol |
| 314 | Arwel George | Cydag Uwchradd |
| 315 | Bethan James | CYSAG Gwynedd |
| 316 | Bethan James | CYSAG Ynys Môn |
| 317 | Bethan James | Panel Cynghori Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol |
| 318 | Bethan James | Ymateb Unigol |
| 319 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 320 | Rebecca Williams | Undeb Coleg Prifysgol Caerdydd |
| 321 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 322 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 323 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |
| 324 | Roedd yr ymatebydd yn dymuno bod yn ddienw | |